# Y CYNGOR 15/12/11

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd John Gwilym Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorydd R Leonard Jones (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Stephen Churchman, Anwen Davies, , Dyfed Edwards, Dylan Edwards, Elwyn Edwards, Huw Edwards, T G Ellis, Alan Jones Evans, Simon Glyn, Keith Greenly-Jones, Gwen Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Siân Gwenllïan, Christopher Hughes, Huw Price Hughes, Louise Hughes, Sylvia Humphreys, O P Huws, Anne Lloyd Jones, Brian Jones, Charles Wyn Jones, Dyfrig Wynn Jones, Elin Walker Jones, Eric Merfyn Jones, John Wynn Jones, Linda Wyn Jones, Penri Jones, Eryl Jones-Williams, P.G.Larsen, Dewi Llewelyn, June Marshall, Keith Marshall, J Wynn Meredith, Llinos Merks, Dafydd Meurig, Dewi Owen, W Roy Owen, W Tudor Owen, Arwel Pierce, Peter Read, Dafydd Roberts, E Caerwyn Roberts, Glyn Roberts, Ieuan Roberts, John Pughe Roberts, Liz Saville Roberts, Siôn S. Roberts, Trevor Roberts, W Gareth Roberts, Dyfrig Siencyn, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Paul Thomas, Guto Rhys Tomos, Ann Williams, Gethin Glyn Williams, Gwilym Williams, J.W.Williams, Owain Williams, R H Wyn Williams, Mandy Williams-Davies a Robert J Wright.

**Hefyd yn bresennol:** Harry Thomas (Prif Weithredwr), Dilwyn O Williams, Dafydd Lewis ac Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwyr Corfforaethol), Dilys Phillips (Swyddog Monitro/Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Cyfeiriad Strategol), Gwen Carrington (Pennaeth Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol), Meilys Smith, (Uwch Reolwr Busnes Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol), Morwena Edwards (Pennaeth Darparu a Hamdden), Dewi R Jones (Pennaeth Addysg), Guto Rhys Huws (Cydlynydd Rhaglenni Ad-drefnu Ysgolion), Tony Bate (Rheolwr Arweiniol Ad-drefnu Ysgolion Cynradd), Dafydd Gibbard (Rheolwr Eiddo Corfforaethol), Catherine Roberts (Uwch Swyddog Diogelwch Cymunedol), Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr) ac Eleri Parry (Arweinydd Tîm Pwyllgorau)

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr Endaf Cooke, E T Dogan, Trevor Edwards, Alun Wyn Evans, Jean Forsyth, Margaret Griffith, Aeron M Jones, Evie Morgan Jones, Dilwyn Lloyd, Linda Morgan

**1. GWEDDI**

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd Dafydd Roberts

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2011 fel rhai cywir yn amodol ar nodi cywiriad i gymal 6(d) yn yr eitem Canlyniad yr Ymgynghoriad ar Ddyfodol Cartrefi Preswyl Tan y Marian, Pwllheli a Phant yr Eithin, Harlech, sef "*bod tystiolaeth helaeth bod angen unedau arbenigol ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu ym Meirionnydd a thai fforddiadwy yn Harlech"*

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dosbarthwyd i'r aelodau, cyn y cyfarfod, nodyn briffio gan y Swyddog Monitro ynglŷn â'r eitem "Ad-drefnu Ysgolion Dwyrain Dalgylch y Gader, Dolgellau" a "Treth Cyngor: Disgresiwn i Ganiatáu Disgownt",

Eglurwyd bod aelodau oedd â buddiannau personol wedi cael cyngor unigol, ac y bydd gofyn i lywodraethwyr yr ysgolion dan sylw ddatgan eu buddiant ond byddant yn cael siarad a phleidleisio.

Mewn perthynas â'r eitem "Treth Cyngor:Disgresiwn i Ganiatáu Disgownt", eglurwyd bod yr eitem yn ymwneud â dau gategori o eiddo sef ail-gartrefi (tai gwyliau) sy'n wag ond wedi eu

dodrefnu a thai sydd wedi bod yn wag a heb eu dodrefnu ers 6 mis neu fwy.

Nodwyd y dylai aelod sydd â thŷ yng Ngwynedd ac yn disgyn i'r naill gategori neu'r llall, ac yn talu treth Cyngor nid treth annomestig ddatgan buddiant ar yr eitem a gadael yr ystafell.

(i) Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol yn yr eitemau canlynol am y rhesymau a nodir:-

- Y Cynghorydd Dylan Edwards yn yr eitem Ad-drefnu Ysgolion Dwyrain Dalgylch Y Gader oherwydd cysylltiad busnes;
- Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn yn yr eitem "Treth Cyngor: Hawl Disgresiwn i Ganiatáu Disgowntiau" oherwydd ei fod yn berchen eiddo sydd wedi bod yn wag dros chwe mis;
- Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies yn y cynnig brys yn ymwneud â lleoliad pencadlys y corff amgylcheddol newydd oherwydd bod ei gŵr yn Bennaeth Cynllunio Cyngor Cefn Gwlad Cymru, sydd hefyd yn ymgynghori ar y newidiadau

Roedd yr aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau oedd yn rhagfarnu a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

(ii) Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol yn yr eitem "Ad-drefnu Ysgolion Dalgylch y Gader, Dolgellau", oherwydd y rhesymau a nodir:

- Y Cynghorydd Gethin G. Williams oherwydd ei fod yn aelod o Fwrdd Llywodraethol Ysgol Machreth, Llanfachreth;
- Y Cynghorydd John Pughe Roberts oherwydd ei fod yn aelod o Fwrdd Llywodraethol Ysgol Dinas Mawddwy a bod ei chwaer â phlentyn yn yr ysgol honno.

Roedd yr aelodau o'r farn nad oeddynt yn fuddiannau oedd yn rhagfarnu a chymerasant ran lawn yn y drafodaeth ar yr eitemau perthnasol.

(iii) Datganodd y Cynghorwyr Anne Lloyd Jones, Brian Jones a John Wyn Williams fuddiant personol yn y cwestiwn ynglŷn â chartrefi Cymunedol Gwynedd oherwydd eu bod yn aelodau o Fwrdd Cartrefi Cymunedol Gwynedd.

Roedd yr aelodau o'r farn nad oeddynt yn fuddiannau oedd yn rhagfarnu ac ni adawsant y cyfarfod yn ystod yr eitem.

(iv) Datganodd y Cynghorwyr Eryl Jones-Williams a Trevor Roberts fuddiant personol yn y cwestiwn ynglŷn â Chartrefi Cymunedol Gwynedd oherwydd eu bod yn denantiaid i'r corff

Roedd yr aelodau o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu ac ni adawsant y Siambr yn ystod yr eitem

**4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

(i) Cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaeth drasig a disymwth mab y Cynghorydd Trevor Edwards, a chydymdeimlwyd â'r teulu yn eu profedigaeth drist.

Hefyd, cydymdeimlwyd â'r Cynghorydd Alun Wyn Evans ar golli ei dad a'r Cynghorydd E T Dogan ar golli ei chwaer a'i frawd yng nghyfraith yn ddiweddar, a dymunwyd yn dda i'r Cynghorydd Dogan a oedd wedi ei gymryd i'r ysbyty y bore hwnnw.

Yna, cydymdeimlwyd â phawb arall oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar, a gwahoddwyd y cyfarfod i sefyll fel arwydd o barch a chydymdeimlad.

(iv) Llongyfarchwyd Tîm Fflam, sef tîm o bum disgybl o Ysgol Botwnnog ar dderbyn gwobr Nawdd a Marchnata yn y “Formula 1 Mewn Ysgolion” ym Malaysia yn ddiweddar.

Cyfeiriwyd hefyd at lwyddiant y Cyngor wrth ennill y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth Brydeinig APSE (Association of Public Service Excellence), ym maes "Leisure Service Management - Most Improved Performer" am Ganolfan Hamdden Plas Ffrancon. Llongyfarchwyd y Gwasanaeth Darparu a Hamdden ar eu llwyddiant.

Yn ogystal cyfeiriwyd at Wasanaethau Arbenigol Plant Cyngor Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr oedd wedi eu hanrhydeddu’n ddiweddar gan Brif Weinidog Cymru am dorri cwys newydd drwy hyrwyddo gwell cydweithio rhwng gwasanaethau ac asiantaethau er budd plant bregus a’u teuluoedd. Llongyfarchwyd y Rheolwr Iona Griffith a’r Tîm ar eu llwyddiant.

Llongyfarchwyd hefyd Mr Llew Davies, Dirprwy Bennaeth, Ysgol Cae Top, Bangor, ar gipio gwobr “ Athro’r Flwyddyn” yn y “ Pride of Britain Awards” yn ddiweddar. Nodwyd iddo fod yr eildro iddo ennill gwobr o’r fath gan iddo gipio gwobr Athro’r Flwyddyn yn y Gwobrau Dysgu Blynyddol y llynedd.

**5. MATER BRYS**

Cytunodd y Cadeirydd, o dan Adran 100B (4)(b) Deddf Llywodraeth Leol 1972, i gynnwys y cynnig ynglŷn â lleoliad pencadlys y corff amgylcheddol newydd oherwydd bod y mater wedi dod i’r amlwg yn ddiweddar a bod goblygiadau pell gyrhaeddol i leoliad y pencadlys, a bod angen rhoi sylw buan iddo.

**6. CWESTIWN**

(a) Cwestiwn y Cynghorydd John Pughe Roberts

**“Ers Mai 2008 faint o swyddi’r Cyngor sydd wedi symud o Feirionydd i Ddwyfor ag Arfon, faint sydd wedi symud o Arfon a Dwyfor i Feirionydd, faint sydd wedi symud o Arfon i Ddwyfor ac o Ddwyfor i Arfon?”**

Ateb y Cynghorydd Simon Glyn, Arweinydd Portffolio Adnoddau Dynol

Nododd bod y manylion y tabl isod wedi ei ddosbarthu i holl aelodau’r Cyngor

| Meirionnydd **i** Arfon a Dwyfor | Arfon a Dwyfor **i** Feirionnydd | Arfon **i** Ddwyfor | Dwyfor **i** Arfon |
|---|---|---|---|
| 9 | 8 | 9 | 11 |

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd John Pughe Roberts**

**Pa swyddi sydd wedi dod i Feirionnydd, i ba le ym Meirionnydd a beth yw’r rhagolygon i’r dyfodol?**

**Ateb y Cynghorydd Simon Glyn, Arweinydd Portffolio Adnoddau Dynol**

Nid yw’r wybodaeth gennyf ar hyn o bryd, ond fe basiaf y cwestiwn ymlaen i’r swyddogion perthnasol, er mwyn iddynt anfon ateb at yr aelod mor fuan â phosibl

**(b) Cwestiwn y Cynghorydd Louise Hughes**

Pa drefniadau sydd ar waith rhwng Cyngor Gwynedd a Chartrefi Cymunedol Gwynedd i alluogi cynghorwyr i gynorthwyo tenantiaid gydag ymholiadau/problemau ynghylch eu tenantiaethau?

**Ateb y Cynghorydd John Wyn Williams, Uwch Arweinydd Gofal**

Mae dau fater gwahanol sydd angen sylw wrth ymateb i'r cwestiwn hwn, sef hawl aelodau i weithredu ar ran tenantiaid neu denantiaid posib unigol a rôl y Cyngor o graffu gwaith Cartrefi Cymunedol Gwynedd.

1. O ran rôl yr aelod gyda thenantiaid unigol, mae modd i gynghorwyr lleol weithredu ar ran tenantiaid neu denantiaid posib wrth ddelio â Chartrefi Cymunedol Gwynedd ond y pwynt allweddol fan hyn yw bod yn rhaid i'r unigolyn gydsynio â hynny. Mae gan Gartrefi Cymunedol Gwynedd drefn safonol i gofnodi'r hawl hynny lle mae unigolion yn cadarnhau eu bod yn dymuno i gynghorydd weithredu ar eu rhan a chredaf fod pob aelod o'r Cyngor yn ymwybodol o'r drefn hynny. Mae'r drefn yma yn hollol angenrheidiol er mwyn gwarchod Cartrefi Cymunedol Gwynedd ac Aelodau'r Cyngor yn unol â Deddf Diogelu Data 1998. Mae'n deg nodi bod y protocol cysylltu a'r drefn yn gyson â chynnwys y Ddogfen Gynnig a gafodd ei gytuno fel rhan o'r gwaith ar allanoli'r stoc. Yn gysylltiedig â'r protocol mae CCG yn cadw bâs data o bob cysylltiad / ymholiad gan aelod o'r Cyngor. Mae'r bâs data yma yn dangos dyddiad y cysylltiad, natur yr ymholiad a hefyd pryd yr atebir yr ymholiad. Os oes unrhyw aelod yn ansicr o sut mae'r protocol yn gweithio, 'rwyf yn sicr y byddai Mared Dafydd, o CCG, yn barod iawn i gael sgwrs hefo unrhyw un ohonom.

2. O ran craffu gwaith CCG, wrth fabwysiadu'r trefniadau newydd, sefydlodd y Cyngor drefn o gyfarfodydd chwarterol i alluogi'r Cyngor i godi materion o bryder gyda chynrychiolwyr CCG. Mae'r cyfarfodydd chwarter cyntaf a thrydydd chwarter ar lefel swyddogion ond yn y ddau chwarter arall, mae'r cyfarfod yn cynnwys cynghorwyr, yn benodol yr Arweinydd Portffolio Tai a Chadeirydd neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Gofal.

   Ers rhai misoedd bellach, rydym wedi cychwyn trefn lle yr anfonir llythyr at bob cynghorydd i roi cyfle i aelod unigol ddwyn unrhyw fater o bryder i'n sylw er mwyn i ni eu codi yn unrhyw un o'r cyfarfodydd hynny. Dylid nodi ein bod yn dweud na allwn godi achosion unigol yn y cyfarfodydd ond mae'n eithriadol o bwysig derbyn gwybodaeth am achosion o'r fath er mwyn ceisio adnabod os oes patrymau o broblemau yn codi sydd angen eu gwyntyllu'n llawnach. Dylwn nodi, hyd yn hyn, mae ychydig iawn o gynghorwyr sydd wedi manteisio ar y cyfle hynny ac nad oes unrhyw beth sylweddol na phatrwm o broblemau yn dod i'r amlwg.

   Pwynt arall yw bod trefn i Brif Weithredwr CCG ymddangos unwaith y flwyddyn gerbron y Pwyllgor Craffu perthnasol. Unwaith eto, mae'n deg i ddweud mai ychydig iawn o faterion a godwyd gyda'r Prif Weithredwr yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu.

3. Y pwynt olaf, wrth gwrs, yw bod gan Cyngor gynrychiolwyr ar Fwrdd Cartrefi Cymunedol Gwynedd, sef minnau, y Cynghorydd Trefor Edwards, Brian Jones ac Ann Lloyd Jones. Yn amlwg, fel cyfarwyddwyr i'r sefydliad, mae ein cyfrifoldeb i'r cwmni ond, lle'n briodol, mae modd i ni ddod â llais y Cyngor i mewn i drafodion y cwmni.

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Louise Hughes**

Mae llawer ohonom yn y siambr wedi profi anawsterau i gyfathrebu a siarad gyda staff Cartrefi Cymunedol Gwynedd, felly a yw'r Uwch Arweinydd Portffolio yn barod i gyfleu'r anawsterau i CCG ac adrodd yn ôl gyda datrysiad i'r broblem.

**Ateb y Cynghorydd John Wyn Williams, Uwch Arweinydd Gofal**

Rwyf yn ymwybodol o'r problemau, yn eu trafod yn fynych gyda Cartrefi Cymunedol Gwynedd, ac yn fwy a pharod i'w drafod eto gyda CCG.

## 7. CYFEIRIO'N UWCH YN UNOL Â RHEOL GWEITHDREFN 21

(i) Adroddwyd bod y nifer priodol o aelodau wedi rhoddi rhybudd ysgrifenedig eu bod yn dymuno cyfeirio'r mater isod yn uwch.

**BWRDD Y CYNGOR 11 HYDREF 2011**

**Eitem 5 - Ymgynghoriad ar ddyfodol Cartref Preswyl Hafod y Gest**

(ii) Adroddwyd bod Bwrdd y Cyngor yn ei gyfarfod ar 11 Hydref 2011, wedi penderfynu fel a ganlyn:-

**PENDERFYNWYD**

**(a) dod â defnydd Hafod y Gest fel cartref preswyl i ben, a hynny, wedi ei amseru yn unol ag amserlen datblygu tai gofal ychwanegol ar y safle.**

**(b) sicrhau asesiadau o drigolion presennol Hafod y Gest ac ail gartrefu'r trigolion yn unol â'u hanghenion unigol;**

**(c) cyflwyno adroddiad i'r Bwrdd i drosglwyddo'r safle yn ddi-dâl i Gymdeithas Tai Eryri;**

**(ch) cefnogi'r Aelod Portffolio *a'r* Cyfarwyddwr Corfforaethol i gyflwyno cais ffurfiol *i* Lywodraeth Cymru i arallgyfeirio grant tai cymdeithasol a ddyrannwyd i adeiladu TG yn Llan Ffestiniog i ddatblygu cynlluniau TGY Porthmadog a Bangor;**

**(d) bod darpariaeth yn cyfarch anghenion preswyl ac yn dilyn ymarfer gorau er mwyn galluogi'r unigolyn i gynnal eu cartref gan gynnwys rhai a dementia a dal i weithio'n agos gyda'r Brifysgol a'r Athro Bob Wood;**

**(dd) dylid edrych ar gyfleoedd dydd a sicrhau bod y trydydd sector yn arwain;**

**(e) cefnogi bwriad Cymdeithas Tai Eryri i ymgynghori'n lleol ar y dyluniad manwl cyn cyflwyno cais cynllunio**

(iii) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ganlyniad yr ymgynghoriad statudol ar ddyfodol cartref Hafod y Gest, Porthmadog er mwyn ystyried dyfodol y cartref.

(iv) Gyda chefnogaeth eilydd, cynigiodd Arweinydd Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol benderfyniad y Bwrdd gyda diwygiadau i gymalau (a), (b), (d) ac ychwanegu cynnal (f) fel a ganlyn:-

*(a) Newid defnydd Hafod y Gest drwy adeiladu tai gofal ychwanegol yn lle'r ddarpariaeth bresennol yn unol ag amserlen datblygu tai gofal ychwanegol ar y safle.*

*(b) Sicrhau asesiadau o drigolion Hafod y Gest er mwyn cwrdd â'u hanghenion unigol;*

*(c) Cyflwyno adroddiad i'r Bwrdd i drosglwyddo'r safle yn ddi-dâl i Gymdeithas Tai Eryri;*

*(ch) Cefnogi'r Aelod Portffolio* a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol i gyflwyno cais ffurfiol i *Lywodraeth Cymru i arallgyfeirio grant tai cymdeithasol a ddyrannwyd i adeiladu TG yn Llan Ffestiniog i ddatblygu cynlluniau TGY Porthmadog a Bangor;*

*(d) Bod y ddarpariaeth newydd yn cyfarch anghenion unigolion i gynnal eu cartref, ac yn dilyn ymarfer gorau gan gydweithio gyda'r Athro Bob Wood o Brifysgol Bangor ynglŷn â rhai â dementia;*

*(dd) Dylid edrych ar gyfleoedd dydd a sicrhau bod y trydydd sector yn arwain;*

*(e) Cefnogi bwriad Cymdeithas Tai Eryri i ymgynghori'n lleol ar y dyluniad manwl cyn cyflwyno cais cynllunio;*

*(f) Parhau i ymgynghori gyda'r gymdogaeth*

(v) Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan Arweinydd Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol, a chyfeiriwyd at y prif ystyriaethau, a sail yr argymhellion, sef bod:-

- llawer mwy o bobl yn byw yn hŷn, a bod rhaid i Wynedd, fel pob awdurdod arall wasanaethu mewn ffordd wahanol;

- y trefniadau arfaethedig yn cyd-fynd â gweledigaeth y Cyngor a dyheadau pobl hŷn y sir i hybu a chynnal eu hannibyniaeth, i'w galluogi i fyw yn eu cartrefi eu hunain cyhyd â phosibl. Roedd gweithredu'r weledigaeth yn golygu lleihad anorfod yn yr angen am ofal preswyl;
- gwasanaethau galluogi, teleofal, gofal dydd, gofal ysbaid ayb yn galluogi pobl i fyw yn fwy annibynnol;
- angen gwrando barn arbenigwyr sy'n nodi bod angen edrych ar ffyrdd o hybu pobl i adennill hyder a chyrraedd annibyniaeth oddi allan i wasanaethau cymdeithasol, a rhaid amcanu i gydweithio gyda phartneriaid lleol er mwyn gwella ansawdd gwasanaethau;
- bod gwasanaeth ardderchog yn Hafod y Gest, ond roedd cyflwr yr adeilad yn wael iawn, ac roedd cytundeb bod angen cyfarch y broblem;
- arian cyfalaf y Cyngor yn brin, a dylid croesawu'r buddsoddiad sylweddol gan Gymdeithas Tai Eryri ar gyfer adeiladu tai gofal ychwanegol;
- y Cyngor wedi ei feirniadu am beidio newid a symud y gwasanaeth ymlaen, a bod datblygu Hafod y Gest yn sicrhau gwell ddarpariaeth mewn adeilad modern sy'n ymateb i anghenion unigolion i'r dyfodol;
- os fydd cefnogaeth i benderfyniad y Bwrdd, bydd angen symud y preswylwyr allan o gartref Hafod y Gest. Sicrhawyd yr aelodau y bydd lefydd addas ar gyfer eu hanghenion yn lleol;
- oedi wedi creu ansicrwydd mawr i'r preswylwyr, a phwysodd ar aelodau i ddod i benderfyniad pendant yn ddi-oed;

Diolchodd Arweinydd Gwasanaethau Cymdeithasol i staff Hafod y Gest am eu gofal a'u gwaith clodwiw ar hyd y blynyddoedd.

(vi) Mynegwyd cryn anfodlonrwydd gan aelod lleol Gorllewin Porthmadog ynglŷn â sawl elfen. Nodwyd y materion canlynol:-

- er bod y rhestr ymgynghori'n faith, ychydig iawn oedd wedi ymateb. Mynegodd syndod nad oedd y Cyngor wedi cysylltu gyda'r ymgynghorai drachefn er mwyn ceisio ymateb ganddynt;
- bod yr ymgynghori'n ddiwerth gan na roddwyd sylw i'r ymatebion a ddaeth i law;
- bod y Cyngor wedi honni nad oedd unrhyw gynlluniau ar gael, er bod Tai Eryri wedi cyflwyno cynlluniau bras yn ystod yr ymgynghoriad, a'i fod yn betrus ynglŷn â hyn;
- ei fod yn derbyn bod cyflwr adeilad Hafod y Gest yn wael, ac na ddylid gwario ar yr adeilad presennol. Roedd yn cefnogi datblygu cyfuniad o wasanaethau, ond roedd o'r farn bod yr adroddiad yn unllygeidiog yn canolbwyntio'n llwyr ar dai gofal ychwanegol;
- bod tystiolaeth mai prin iawn oedd y llefydd preswyl oedd ar gael yn ardal Porthmadog ar hyn o bryd a'i fod yn tanlinellu'r angen am y gwasanaeth;
- nad oedd gwaith ymchwil wedi ei wneud i ddangos bod angen cynifer o dai gofal ychwanegol yn yr ardal;
- ei fod yn pryderu y bydd aelodau eraill hefyd yn profi sefyllfa anodd pan drafodir dyfodol cartrefi preswyl yn eu wardiau hwy

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant i wrthod yr argymhellion presennol a mynd yn ôl i drafod yn dryloyw a thrwyadl er mwyn sicrhau darparu'n addas ar gyfer gofynion a dyheadau'r gymuned.

(vii) Nododd Arweinydd Portffolio Darparu ei fod yn gefnogol iawn i 'r weledigaeth o hybu annibyniaeth, a'r angen am ddarpariaeth sy'n cwrdd ag anghenion pobl hŷn. Fodd bynnag,

er bod pobl yn awyddus i fyw'n annibynnol cyhyd â phosibl, nododd nad oedd iechyd ac oedran yn caniatáu hynny bob amser, a bod gofal yn flaenoriaeth bryd hynny.

Ychwanegodd bod cartref Hafod y Gest wedi ei drafod ers sawl blwyddyn bellach, ei fod yn bryderus ynglŷn â phreswylwyr a staff a bod angen penderfyniad ynglŷn â dyfodol y cartref yn ddi-oed. Mynegodd bryder bod darpariaeth gofal yn ddi-gyfeiriad yng Ngwynedd a bod angen canllawiau cynhwysfawr ar gyfer yr holl sir.

Mynegodd gonsyrn y bydd y penderfyniad i gau Hafod y Gest yn cael ei adlewyrchu yng nghartrefi eraill y sir, gyda'r gwasanaeth yn cael ei allanoli. Pwysodd ar aelodau i gefnogi gwelliant yr aelod lleol.

(viii) Nododd aelod dwyrain Porthmadog bod yr ymgynghori a'r ymgysylltu wedi bod yn ddiffygiol, a'i fod yn anfodlon na wrandawyd barn y pwyllgorau craffu, yr aelod lleol, yr aelodau ffiniol, Cyngor Tref Porthmadog, ynghyd â'r gymuned leol oedd oll yn gofyn am drafodaeth ac ymgynghori pellach. Pwysodd ar aelodau i gefnogi'r gwelliant a thrafod ymhellach er mwyn sicrhau darpariaeth addas ar gyfer gofynion a dyheadau'r gymuned.

(ix) Nododd aelod iddi ofyn droeon i'r Cyngor dros y blynyddoedd, gofrestru cartrefi preswyl a nyrsio dan yr unto, fel nad oedd rhaid i'r henoed symud o un cartref i'r llall. Roedd y Cyngor wedi ei hysbysu nad oedd hynny'n bosibl, ond roedd ar ddeall erbyn hyn nad oedd hynny'n gywir. Pwysodd ar aelodau i gefnogi gwelliant yr aelod lleol.

(x) Nododd aelod arall bod tystiolaeth bod symud yr henoed yn byrhau eu hoes. Mynegodd bryder dybryd ynglŷn â'r preswylwyr presennol, a phwysleisiodd y dylid adeiladu tai gofal ychwanegol ar wahân i'r ddarpariaeth bresennol yn Hafod y Gest fel nad oedd rhaid i breswylwyr presennol symud o'r cartref.

(xi) Ategodd sawl aelod bryder ynglŷn â phreswylwyr presennol y cartref, a mynegwyd y farn bod y pryder hwn wrth wraidd llawer o'r gwrthwynebiad i'r newidiadau arfaethedig.

(xii) Nododd Arweinydd y Cyngor bod 96% o drigolion Gwynedd yn dymuno parhau i fyw'n annibynnol a bod angen i'r Cyngor roi darpariaeth gyflawn i sicrhau bod hynny'n bosibl. Nododd bod cytundeb bod bwlch yn narpariaeth tai gofal ychwanegol ym Mhorthmadog, ac er bod llawer o waith wedi ei gyflawni eisoes, roedd yn cytuno bod angen gwaith a thrafodaeth bellach. Pwysodd ar aelodau i gefnogi'r gwelliant er mwyn sicrhau darpariaeth fodern, gyfoes a phwrpasol ar gyfer yr ardal, ond pwysleisiodd bod angen gosod cyfnod pendant i'r gwaith.

Gyda chaniatâd y cynigydd a'r eilydd ychwanegwyd at y gwelliant bod adroddiad llawn yn dod yn ôl i'r Cyngor mewn 6 mis.

Yn unol â rheol gweithdrefn 19(6), cofnodwyd y bleidlais ganlynol ar welliant i wrthod yr argymhellion presennol a mynd yn ôl i drafod yn dryloyw a thrwyadl er mwyn sicrhau darparu yn addas ar gyfer gofynion a dyheadau'r gymuned, a dod ag adroddiad llawn yn ôl i'r Cyngor mewn 6 mis.

**O blaid: (60)** Y Cynghorwyr: Stephen Churchman, Anwen Davies, Dyfed Edwards, Dylan Edwards, Elwyn Edwards, Huw Edwards, T G Ellis, Alan Jones Evans, Simon Glyn, Keith Greenly-Jones, Gwen Griffith, Alwyn Gruffydd, Siân Gwenllïan, Christopher Hughes, Huw Price Hughes, Louise Hughes, Sylvia Humphreys, O P Huws, Anne Lloyd Jones, Brian Jones, Charles Wyn Jones, Dyfrig Wynn Jones, Elin Walker Jones, Eric Merfyn Jones, John Gwilym Jones, John Wynn Jones, Linda Wyn Jones, R Len Jones, Penri Jones, Eryl

Jones-Williams, P.G.Larsen, Dewi Llewelyn, J Wynn Meredith, Llinos Merks, Dafydd Meurig, Dewi Owen, W Roy Owen, W Tudor Owen, Arwel Pierce, Peter Read, Dafydd Roberts, E Caerwyn Roberts, Glyn Roberts, Ieuan Roberts, John Pughe Roberts, Liz Saville Roberts, Siôn S. Roberts, Trevor Roberts, W Gareth Roberts, Dyfrig Siencyn, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Paul Thomas, Guto Rhys Tomos, Ann Williams, Gethin Glyn Williams, Gwilym Williams, J.W.Williams, Owain Williams a Mandy Williams-Davies.

**Yn erbyn: (0)**

**Atal pleidlais (5)** Y Cynghorwyr: Selwyn Griffiths, June Marshall, Keith Marshall, R H Wyn Williams a Roberts Wright

Adroddodd y Cadeirydd bod y gwelliant wedi'i gario a phleidleisiwyd ar y cynnig fel ag yr oedd wedi'i wella.

Mewn ymateb i ymholiad, eglurodd y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol, y bydd y trefniadau democrataidd newydd y Cyngor yn dod i rym mis Mai 2012. Er mai'r Cabinet fydd yn penderfynu ar y mater mewn chwe mis, eglurodd y bydd yn bosibl dod yn ôl i'r Cyngor llawn am drafodaeth ar y mater.

**PENDERFYNWYD gwrthod yr argymhellion presennol a mynd yn ôl i drafod yn dryloyw a thrwyadl er mwyn sicrhau darparu yn addas ar gyfer gofynion a dyheadau'r gymuned, a dod ag adroddiad llawn yn ôl i'r Cyngor mewn chwe mis.**

## 8. AD-DREFNU YSGOLION DWYRAIN DALGYLCH Y GADER

(i) Cyflwynwyd:-

(a) Adroddiad Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol yn dilyn ymgynghoriad statudol ar gynigion i ad-drefnu ysgolion cynradd yn rhan ddwyreiniol o ddalgylch y Gader.
(b) Argymhellion Bwrdd y Cyngor a gyfarfu ar 13 Rhagfyr 2011.

(ii) Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan Arweinydd Addysg, ac eglurwyd, yn dilyn cyfnod ymgynghori statudol, y ceisir cefnogaeth i'r argymhellion i ad-drefnu ysgolion yn rhan ddwyreiniol dalgylch y Gader. Nodwyd bod Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ynghyd â Bwrdd y Cyngor wedi cymeradwyo'r argymhellion yn ddiwrthwynebiad.

Eglurwyd bod y cadarnhad gan y Gweinidog Addysg bod adnoddau ar gael ar gyfer adeiladu ysgol ardal ym Mro Dysynni ynghyd â'r datblygiad oedd ar y gweill i adeiladu Ysgol yr Hendref newydd yng Nghaernarfon yn golygu bod Strategaeth Ad-drefnu Ysgolion Cynradd y Sir wedi dod â £17m i Wynedd ar adeg economaidd hynod heriol i ddatblygwyr. Ychwanegwyd bod Gwynedd hefyd wedi bod yn llwyddiannus, gyda nifer o agweddau o'r cais am arian cyfalaf o'r Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif. Golygai bod buddsoddiad pellach o £36m yn dod i Wynedd tuag at ysgolion yn ardal y Berwyn, ysgolion Y Groeslon a Glan Cegin a thuag at Ysgol Hafod Lon newydd.

(iii) Diolchodd yr Arweinydd Addysg i ymgyrch papurau'r Herald a'r gefnogaeth eang arall sydd wedi galluogi'r Cyngor i greu momentwm a sicrhau buddsoddiad trwy Wynedd gan gynnwys ardaloedd tlotaf y sir.

(iv) Diolchwyd hefyd i'r aelodau lleol am eu gwaith caled dros y misoedd diwethaf.

(v) Cyfeiriodd Arweinydd Addysg at lythyr a dderbyniwyd gan fam i ferch 3 oed o bentref Llanfachreth. Roedd y llythyr yn nodi iddynt benderfynu cadw'r ferch mewn darpariaeth addysg feithrin breifat oherwydd diffyg plant oedran meithrin yn Ysgol Machreth. Hefyd

roedd y 4 plentyn oedd yn y cyfnod sylfaen yn fechgyn. Pwysleisiodd yr Arweinydd Addysg bod y llythyr yn amlygu'r problemau dyrys oedd yn wynebu rhieni'r ardal. Ymhellach eglurwyd bod y teulu'n gefnogol i'r egwyddor o sefydlu ysgol ardal newydd gan eu bod o'r farn y bydda'n cryfhau'r ddarpariaeth addysgol i holl blant Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain. Hefyd, byddai'n cyfoethogi profiadau addysgol a chymdeithasol y disgyblion ac y n gwella'r adnoddau a'r amgylchfyd addysg ar eu cyfer, ynghyd â chryfhau'r defnydd o'r Gymraeg yn eu plith.

(vi) Nododd yr aelod lleol dros Ward Brithdir a Llanfachreth:-

- ei fod yn ddiolchgar iawn i Arweinydd Portffolio Addysg a swyddogion y Cyngor am eu gwaith clodwiw i ad-drefnu ysgolion yn nwyrain dalgylch y Gader;
- bod y Paneli Adolygu Dalgylch wedi sicrhau cyfle i gynrychiolwyr pob ysgol leisio barn a bod consensws yn y cyfarfodydd bod y sefyllfa bresennol yn anghynaladwy i'r dyfodol a bod angen ad-drefnu;
- bod canlyniad yr ymgynghori'n dangos bod ysgolion Brithdir a Dinas Mawddwy yn cefnogi sefydlu ysgol ardal, a bod Ysgol Ieuan Gwynedd, Rhydymain hefyd yn cefnogi'r ysgol ardal ond, byddai'n well ganddynt weld yr ysgol yn cael ei lleoli yn eu pentref eu hunain;
- bod yr ymateb yn Llanfachreth ychydig yn fwy cymysglyd gyda gwrthwynebiad i gau'r ysgol ar sail y golled i'r gymuned a cholli ysgol eglwys i gefn gwlad. Hefyd, roedd dymuniad i sefydlu ysgol ardal newydd ar safle niwtral;
- ei fod wedi trafod y sefyllfa gyda rhai o rieni Ysgol Machreth cyn i'r penderfyniad gael ei wneud i gau'r ysgol, a bod y rhieni'n bryderus ynglŷn â'r dyfodol oherwydd bod y niferoedd plant mor isel yn y dalgylch;
- bod arbenigwyr y Cyngor wedi cyflawni asesiad manwl iawn o fanteision a chryfderau a gwendidau sawl lleoliad yn yr ardal ac wedi penderfynu am resymau dilys, y dylid sefydlu'r ysgol newydd yn Y Brithdir;
- gydag Ysgol Brithdir yn orlawn pwysleisiwyd bod canoli'r ysgol newydd ar safle sydd agosaf ar y rhan fwyaf y plant yn lleihau'r risg i'r Cyngor i'r dyfodol.

(vii) Nododd yr aelod lleol dros Ward Corris a Mawddwy:-

- ei fod yn llongyfarch ac yn diolch i swyddogion am eu gwaith caled i sicrhau bod buddsoddiad ardderchog i Dde Meirionnydd a fydd o gymorth i'r economi leol.
- bod consensws bod y sefyllfa bresennol yn anghynaladwy a bod angen ysgol ardal. Fodd bynnag, roedd rhai wedi newid eu meddwl am na leolir yr ysgol ardal yn eu pentref hwy;
- bod y gymuned yn dymuno cael ysgol ardal newydd ar safle niwtral, ond nad oedd yr hinsawdd economaidd bresennol yn caniatáu hynny;.
- o edrych ar y tri safle, 'roedd y risg i'r Cyngor o fuddsoddi mewn ysgolion sy'n crebachu yn llawer rhy uchel, ac y byddai'n well sefydlu'r ysgol ardal ar safle'r Brithdir gan fod yr ysgol bresennol yn orlawn.
- y byddai'n rhaid i'r ysgol newydd gydweithio gydag Ysgol Dinas Mawddwy gan y byddai'r ddwy ysgol yn un ac 'roedd llywodraethwyr Ysgol Dinas Mawddwy a'r cyngor cymuned yn llwyr gefnogol i safle Ysgol y Brithdir.
- ei fod yntau'n gefnogol i safle Ysgol y Brithdir ac yn gobeithio y gellid symud ymlaen yn ddi-oed i gyhoeddi'r rhybuddion statudol er lles yr ardal.

Yn unol â rheol gweithdrefn 19(6), cofnodwyd y bleidlais ganlynol ar yr argymhellion i ad-drefnu ysgolion cynradd yn rhan ddwyreiniol o ddalgylch y Gader.

**O blaid: (50)** Y Cynghorwyr: Stephen Churchman, Dyfed Edwards, Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Keith Greenly-Jones, Gwen Griffith, Siân Gwenllïan, Christopher Hughes, Huw Price Hughes, Sylvia Humphreys, O P Huws, Anne Lloyd Jones, Brian Jones, Charles Wyn Jones, Dyfrig Wynn Jones, Elin Walker Jones, Eric Merfyn Jones, John Gwilym Jones, John Wynn Jones, Linda Wyn Jones, R Len Jones, Penri Jones, P.G.Larsen, Dewi Llewelyn, June Marshall, Keith Marshall, Dafydd Meurig, Dewi Owen, W Roy Owen, Arwel Pierce, Peter Read, Dafydd Roberts, E Caerwyn Roberts, Glyn Roberts, Ieuan Roberts, John Pughe Roberts, Liz Saville Roberts, Siôn S. Roberts, Trevor Roberts, W Gareth Roberts, Dyfrig Siencyn, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Paul Thomas, Guto Rhys Tomos, Gethin Glyn Williams, Gwilym Williams, R H Wyn Williams, J.W.Williams, a Mandy Williams-Davies.

**Yn erbyn: (0)**

**Atal pleidlais (8)** Y Cynghorwyr: Anwen Davies, Thomas G Ellis, Simon Glyn, Alwyn Gruffydd, Louise Hughes,Llinos Merks, Owain Williams a Bob Wright

**PENDERFYNWYD**

**(i) Cau ysgolion Brithdir, Dinas Mawddwy, Ieuan Gwynedd a Machreth ar 31 Awst 2013, a chyhoeddi rhybuddion statudol yn unol â gofynion Adran 29 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 er gweithredu hyn.**

**(ii) Sefydlu Ysgol Gymuned Ardal Aml-Safle 3 – 11 oed i agor 1 Medi 2013 ar safleoedd presennol ysgolion Brithdir a Dinas Mawddwy, i ddarparu addysg ar gyfer dalgylchoedd presennol ysgolion Brithdir, Dinas Mawddwy, Ieuan Gwynedd a Machreth, a chyhoeddi rhybuddion statudol yn unol â gofynion Adran 28 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 er gweithredu hyn.**

**9. TREFNIADAU DEMOCRATAIDD Y CYNGOR**

(i) Cyflwynwyd:-

(a) Adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol ar newidiadau i strwythur y Cyngor a rôl aelodau mainc gefn i gefnogi'r newid i drefn Cabinet;
(b) Argymhellion y Prif Bwyllgor Craffu a gyfarfu ar 8 Rhagfyr 2011

(ii) Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan Arweinydd y Cyngor.

Adroddwyd bod y Cyngor yn ei gyfarfod diwethaf wedi mabwysiadu ffurf Arweinydd a Chabinet o weithrediaeth o fis Mai 2012 ymlaen, a bod y trefniadau arfaethedig, yn darparu fframwaith newydd gref i gefnogi'r newid i drefn Cabinet, gan gryfhau rôl aelodau mainc cefn a chaniatáu iddynt alw'r Cabinet i gyfrif.

Eglurwyd bod y fframwaith arfaethedig yn ceisio sicrhau bod gwell eglurder ynglŷn â rôl aelod, bod fforymau addas ar gyfer trafodaeth gywir ynghyd â chryfhau cysylltiad y Cyngor â thrigolion Gwynedd.

(iii) Nodwyd bod y Prif Bwyllgor Craffu wedi ystyried y trefniadau'n fanwl ac wedi cymeradwyo'r argymhellion arfaethedig. Eglurwyd y ceisir cytundeb y Cyngor i gyfeiriad y trefniadau arfaethedig, a phwysleisiwyd y bydd cyfle i'r Cyngor newydd edrych ar y manylion maes o law.

(iv) Mynegodd aelod gryn anfodlonrwydd ynglŷn â sefydlu fforymau ardal ar draul pwyllgorau ardal. Pwysleisiodd bod hunaniaeth arbennig yn ardal Meirionnydd. Eglurodd iddo geisio cryfhau rôl y Pwyllgor Ardal Meirionnydd dros y blynyddol, a bod y pwyllgor, yn ddiweddar,

wedi ymgymryd â materion allweddol oedd o bwys mawr i Feirionnydd megis, sefyllfa economaidd a sefyllfa ysgolion uwchradd yr ardal. Mynegodd bryder dybryd y byddai sefydlu fforymau ardal yn tanseilio rôl yr aelod lleol, a phwysleisiodd bod angen rhoi sylw pellach i'r mater.

(v) Adroddwyd gan Gadeirydd y Prif Bwyllgor Craffu bod y pwyllgor craffu wedi cymeradwyo'r trefniadau arfaethedig. Pwysleisiodd yr ymgynghorwyd yn drwyadl ar y trefniadau, a'i fod yn siomedig nad oedd yr aelod wedi gwyntyllu ei bryderon yn ystod yr ymgynghori.

Pwysleisiodd bod y Pwyllgorau Ardal wedi colli grym dros y blynyddoedd, a bod cefnogaeth i sefydlu Fforymau Ardal, oherwydd ei fod yn gyfle i'r Cyngor sefydlu cyswllt agosach gyda'r ardaloedd a thrigolion y sir.

Mynegodd sawl aelod wrthwynebiad i ddiddymu'r Pwyllgor Ardal, gan nodi eu bod yn darparu cyfle i aelodau holi Penaethiaid Gwasanaeth. Hefyd roeddynt yn cytuno y byddai'r trefniadau arfaethedig yn gwanhau rôl yr aelod lleol ac yn annemocrataidd.

Nododd aelod arall bod Fforymau Ardal yn llwyddiannus mewn rhai awdurdodau lleol, a'u bod yn rhoi mwy o lais a grym i aelodau lleol.

Roedd cytundeb cyffredinol bod angen mwy o wybodaeth er mwyn dod i benderfyniad cytbwys.

(vi) Gyda chytundeb yr Arweinydd derbyniwyd gwelliant i ***ystyried ymhellach*** sefydlu Fforymau Ardal i gymryd lle'r Pwyllgorau Ardal.

(vii) Nododd aelod ei bod yn bwysig bod y Pwyllgorau Ardal yn cael cyfle i drafod y mater ymhellach, a chynigiwyd, eiliwyd a phleidleisiwyd ar y gwelliant i ystyried ymhellach sefydlu cyfundrefn Fforymau Ardal i gymryd lle'r Pwyllgorau Ardal yn y Cyngor ar Fai 2012 ar y llinellau a nodir yn yr adroddiad a **chyflwyno *adroddiad ar y mater er ystyriaeth y pwyllgorau ardal"***

Adroddodd y Cadeirydd bod y gwelliant wedi'i gario a phleidleisiwyd ar y cynnig fel ag yr oedd wedi'i wella.

(viii) Nododd aelod bod angen rhoi sylw mawl pellach i rôl pencampwyr.

(ix) Mynegodd aelod anfodlonrwydd mawr am na fydd yn bosibl cyfeirio penderfyniadau'r Cabinet i fyny i'r Cyngor llawn. Pwysleisiodd y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol bod y rheolau cyfreithiol yr un fath i bob Cyngor, ac nad oedd hawl gan Gyngor llawn i newid penderfyniad Cabinet, oni bai ei fod yn groes i gyllideb neu fframwaith polisi. Fodd bynnag, nododd bod modd i'r Cyngor llawn drafod a gwneud argymhellion ar faterion.

**PENDERFYNWYD:-**

**(a) Mabwysiadu strwythur pwyllgorau craffu ar y llinellau a ganlyn:**

- **(i) Sefydlu 3 Pwyllgor Craffu 18 aelod yr un, Strategol a Datblygu, Cefnogi Cymunedau a Darparu Gwasanaethau, yn unol â'r themâu a nodir yn adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol.**
- **(ii) Cynyddu aelodaeth y Pwyllgor Archwilio i 18 aelod etholedig a bod y pwyllgor hwnnw'n gweithredu'r dyletswyddau trosolwg a chraffu a nodir yn nhabl 1 o'r adroddiad.**
- **(iii) Cyflwyno adroddiad pellach ar yr addasiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad a'r Strategaeth Graffu er sefydlu'r strwythur craffu diwygiedig.**

**(b) Ystyried ymhellach sefydlu cyfundrefn Fforymau Ardal i gymryd lle'r Pwyllgorau Ardal yn y Cyngor ar Fai 2012 ar y llinellau a nodir yn yr adroddiad a chyflwyno adroddiad ar y mater er ystyriaeth y pwyllgorau ardal**
**(c) Derbyn y cyfeiriad ar rôl y Cyngor llawn.**
**(ch) Mabwysiadu'r strwythur ar gyfer pwyllgorau eraill.**
**(d) Derbyn y bwriad i gryfhau rôl aelod mainc gefn trwy'r dulliau o gael cyswllt gyda'r Cabinet, pencampwyr a gweithdai.**
**(dd) Derbyn y cynigion ar gefnogaeth i aelodau**

**10. ADOLYGU'R DOSBARTHAU PLEIDLEISIO A MANNAU PLEIDLEISIO**

Cyflwynwyd:-
(i) Adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol i gynnig newidiadau i'r dosbarthau a mannau pleidleisio yn dilyn adolygiad;
(ii) Argymhellion y pwyllgorau ardal ar Adolygu'r Dosbarthau Pleidleisio a Mannau Pleidleisio.

Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan Uwch Arweinydd Adnoddau a manylwyd ar drefniadau adolygiad 2011.

Nodwyd bod Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn ei gyfarfod ar 14 Tachwedd 2011 wedi argymell cau gorsaf bleidleiso Oakley Arms, Maentwog a symud y gofrestr i orsaf bleidleisio Gellilydan. Fodd bynnag, gan fod cytundeb bod Gwesty'r Grapes, Maentwrog yn addas ar gyfer gorsaf bleidleisio, gofynnwyd i'r Cyngor symud y gofrestr i Westy'r Grapes yn hytrach na Gellilydan.

Mewn ymateb i ymholiad, eglurodd y Pennaeth Democrataidd a Cyfreithiol y byddai'n rhaid gwneud darpariaeth dros dro yng Ngwesty'r Grapes ac mewn ychydig orsafoedd eraill er mwyn cael mynediad anabledd.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhellion y pwyllgorau ardal fel a ganlyn:-**

**Pwyllgor Ardal Arfon**
**Cau gorsaf bleidleisio Nant Peris a symud y gofrestr i orsaf bleidleisio Llanberis;**

**Pwyllgor Ardal Dwyfor**
**Cau gorsaf bleidleisio Bryncir a symud y gofrestr i orsaf bleidleisio Garn Dolbenmaen**

**Pwyllgor Ardal Meirionnydd**
**(i) Cadw cofrestr AG2 (Bontddu) ar wahân a chyfuno E1, E3 ac E4 (Abermaw).**
**(ii) Cau gorsaf bleidleisio Oakeley Arms, Maentwrog, a symud y gofrestr i orsaf bleidleisio yng Ngwesty'r Grapes, Maentwrog.**
**(iii) Cau gorsaf bleidleisio Sarnau a symud y gofrestr i orsaf bleidleisio Llandderfel**
**(iv) Cau gorsaf bleidleisio Bontddu a symud y gofrestr i orsaf bleidleisio Llanelltyd**

**11. TRETH CYNGOR: HAWL DISGRESIWN I GANIATÁU DISGOWNTIAU**

(i) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid i gadarnhau'n ffurfiol am 2012/13, ac wedi hynny, y penderfyniadau blaenorol i beidio caniatáu disgowntiau i ail gartrefi ac eiddo gwag.

(ii) Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan Arweinydd Cyllid, a nodwyd bod strategaeth ariannol y Cyngor a'r setliad grant yn seiliedig ar barhau gyda'r polisi o beidio caniatáu disgownt.

(iii) Adroddwyd bod nifer o aelodau wedi awgrymu y dylid codi mwy na 100% o'r Dreth Cyngor sy'n daladwy'n arferol ar ail gartrefi, drwy ddefnyddio 'premiwm' yn hytrach na disgownt. I'r perwyl hwn nodwyd y byddai angen newid yn y Rheoliadau cenedlaethol.

Eglurwyd bod y Cyngor ar y cyd ag awdurdodau eraill yn parhau i ymgyrchu i annog datblygiad o'r fath. Fodd bynnag er mwyn gweithredu'n gyflawn, eglurwyd y byddai angen sicrhau grym i Lywodraeth Cymru i ddeddfu hefyd ynghylch rheoli trosglwyddiad tai haf i dai gwyliau masnachol a threth annomestig.

(iv) Nododd aelod ei fod ar ddeall y llwyddwyd i ddwyn 40 eiddo yn unig ôl i ddefnydd eleni, a gofynnwyd i'r Arweinydd Cyllid geisio dod o hyd i arian ychwanegol er mwyn dod a mwy o eiddo gwag yn ôl i ddefnydd.

**PENDERFYNWYD fod Cyngor Gwynedd ar gyfer 2012/13 yn caniatáu <u>DIM</u> disgownt dan Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 i'r ddau ddosbarth o ail gartrefi (dosbarthau A a B) sydd wedi'u diffinio yn Rheoliadau Treth Cyngor (Dosbarth o Eiddo Penodedig), a bod Cyngor Gwynedd yn caniatáu <u>DIM</u> disgownt yng nghyswllt tai gwag (dosbarth C).**

## 12. DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS 2011/12

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid ar Ddatganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2011/12.

Adroddwyd bod Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2011/12 a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 3 Mawrth 2011 yn gosod y fframwaith ar gyfer buddsoddi arian tros ben er mwyn ennill llog yn ystod y flwyddyn.

Gyda sefyllfa ariannol fyd-eang wedi dirywio yn ystod 2011/12, a nifer o fanciau ar Restr Gwrthbartion Awdurdodedig y Cyngor wedi eu hisraddio, eglurwyd bod ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor, yn argymell y dylid newid y cyfyngiad i raddfa credyd isafswm o "A-" yn lle "A", a lleihau'r uchafswm cyfnod y buddsoddiadau i flwyddyn, yn lle'r ddwy flynedd bresennol.

Ymhellach, nodwyd bod Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2011/12 yn cynnwys Adneuon Cyfnod Penodol gydag Awdurdodau Lleol a bod ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor yn argymell codi'r cyfyngiad o gyfanswm £10m ar gyfer y categori i £25m.

Nodwyd bod y Pwyllgor Archwilio wedi cefnogi'r argymhellion.

**PENDERFYNWYD**

**a) Newid y cyfyngiad graddfa credyd isafswm i "A-", a lleihau'r uchafswm cyfnod adnau arian i flwyddyn ar gyfer unrhyw sefydliad ariannol a ddefnyddir at ddibenion buddsoddi.**

**b) Codi'r cyfyngiad ar gyfanswm buddsoddiadau gydag awdurdodau lleol i £25m.**

## 13. GORCHYMYN MANNAU CYHOEDDUS DYNODEDIG SY'N YMWNEUD AG YFED ALCOHOL YM METHESDA, GERLAN A PHARC MEURIG

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Swyddog Diogelwch Cymunedol i geisio cefnogaeth y Pwyllgor i greu Gorchymyn Mannau Cyhoeddus Dynodedig ym Methesda, Gerlan a Pharc Meurig.

Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan Uwch Arweinydd Gofal, manylwyd ar bwrpas ac amcan y Gorchymyn, a chyfeiriwyd at y dystiolaeth i gefnogi'r bwriad a'r ymateb a gafwyd i'r ymgynghoriad lleol.

Nododd aelod bod tystiolaeth bod yfed alcohol mewn mannau cyhoeddus yn aradeiledd Bethesda, Gerlan a Pharc Meurig yn broblemus, a chroesawyd y Gorchymyn yn fawr. Pwysleisiwyd bod plismona effeithiol yn hanfodol er mwyn sicrhau llwyddiant y Gorchymyn.

**PENDERFYNWYD creu Gorchymyn Mannau Cyhoeddus Dynodedig ym Methesda, Gerlan a Phlas Meurig, yn unol â'r manylion a nodir yn adroddiad yr Uwch Swyddog Diogelwch Cymunedol gyda'r gorchymyn i ddod yn weithredol ar 1 Mawrth 2012**

## 14. MATER BRYS – RHYBUDD O GYNNIG

Yn unol â Rheol Gweithdrefn 13, adroddwyd y derbyniwyd rhybudd o gynnig, ynghyd â rhybudd trefniadaethol, yn unol â Rheol Gweithdrefn 13 (12), oddi wrth y Cynghorydd Dyfed Edwards, yn gofyn am gael trafod y cynnig canlynol yn y Cyngor llawn, yn hytrach na'i gyfeirio i bwyllgor:-

**PENDERFYNWYD trafod y cynnig yn y cyfarfod hwn.**

Cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig canlynol:-

*"Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan bwriad i greu un corff amgylcheddol i Gymru. Mae pencadlys y Cyngor Cefn Gwlad eisoes ym Mangor. Cred Cyngor Gwynedd fod hwn yn gyfle arbennig i ddatganoli swyddi o Gaerdydd ac y dylid lleoli pencadlys y corff newydd yn ardal Bangor. Cyfarwydda'r Cyngor i Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru a'r gweinidogion perthnasol o Lywodraeth Cymru i'w hannog i sicrhau hyn. Ymhellach gofynnwn i bobl Gwynedd, a phob cynrychiolydd etholedig gefnogi'r cais hwn."*

Nodwyd bod perygl y gall bwriad Llywodraeth Cymru i uno y Comisiwn Coedwigaeth, Cyngor Cefn Gwlad ac Asiantaeth yr Amgylchedd arwain at golli swyddi o bencadlys Cyngor Cefn Gwlad ac Asiantaeth yr Amgylchedd ym Mangor, trwy ganoli'r swyddi yng Nghaerdydd neu fan arall oddi allan i Wynedd.

Pwysleisiwyd bod cyfle i bwyso ar Lywodraeth Cymru i leoli pencadlys y corff newydd ym Mangor, a thrwy hynny diogelu'r swyddi o ansawdd yma yng Ngwynedd.

Nododd yr Arweinydd ei fod yn gobeithio y bydd pob aelod etholedig a chyrff ledled y sir yn cefnogi'r cais.

Diolchwyd i'r Arweinydd am ddod a'r mater pwysig i sylw'r Cyngor.

**PENDERFYNWYD cyfarwyddo Arweinydd Cyngor Gwynedd i ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru a gweinidogion perthnasol Llywodraeth Cymru, i'w hannog i leoli pencadlys y corff amgylcheddol newydd yn ardal Bangor**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 p.m. a daeth i ben am 4.00 p.m.

____________________________

**CADEIRYDD**